Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau – Cofnodion Cryno – 21 Hydref 2009

Cerdyn Sgorio Busnes Tŷ'r Cwmnïau (gan gynnwys diweddariad y Grŵp Perchnogaeth Gwasanaeth)
Bu'r Bwrdd yn adolygu'r cerdyn sgorio busnes, gan olrhain y perfformiad yn erbyn targedau a chan nodi cynnydd yn erbyn deilliannau. Yn ogystal, bu'r Bwrdd yn trafod gweithrediad llwyddiannus y Ddeddf Cwmnïau (CAP) newydd.

Model Cynllunio Llwyth Gwaith
Roedd y model cynllunio llwyth gwaith yn cael ei adolygu o hyd. Ar ôl ei gwblhau, byddai'n sail ar gyfer y broses cynllunio busnes.

Risgiau Allweddol Bwrdd Busnes yr Asiantaeth
Bu'r Bwrdd yn adolygu'r risgiau a gyflwynwyd.

Arolwg Staff
Nodwyd cynnydd Arolwg Staff y Gwasanaeth Sifil gan y Bwrdd, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ac a fyddai'n gorffen ar ddiwedd mis Hydref.

Cynllun Busnes Strategol
Mae'r gwaith yn parhau ar y cynllun busnes strategol, a adolygwyd gan y Bwrdd am y tro cyntaf.

Targedau Llwyth Gwaith
Bu'r Bwrdd yn trafod y canlyniadau a gyflwynwyd, gan nodi bod y cyfnodau prosesu ar gyfer ffurflenni papur wedi cynyddu i bedwar diwrnod ers gweithredu CAP.

Cerdyn Sgorio Lefelau Manteisio ar E-Ffeilio
Nododd y Bwrdd y cerdyn sgorio a gyflwynwyd.

Targedau Cyhoeddus 2009/10 Tŷ'r Cwmnïau
Nododd y Bwrdd y canlyniadau a gyflwynwyd.

Adolygu Absenoldeb oherwydd Salwch
Bu'r Bwrdd yn trafod sut y byddai modd gwella'r trefniadau presennol, ond cytunwyd gohirio unrhyw newidiadau tan y Flwyddyn Newydd.

Ysgrifenyddiaeth
21 Hydref 2009